

GREEN GEN CYMRU

# TALIADAU I DIRFEDDIANWYR AM SEILWAITH TRYDAN NEWYDD.

## 1. Taliadau hawddfraint i dirfeddianwyr

### PEILONAU - TALIAD FESUL PEILON

| Math o Dir | Cyfradd fesul Peilon |
|---|---|
| Tir Glas Parhaol | £3,750 |
| Tir Âr / Cylchdroi | £5,000 |

### POLION PREN - TALIAD FESUL POLYN

| Polyn | Cyfradd |
|---|---|
| Un Polyn | £1,700 |
| Polyn H | £2,000 |
| Polyn Terfynell neu Ongl H gyda 4 x Cynhalbost | £3,500 |

### DARGLUDYDD UWCHBEN HEB GYNHALIAETH

(lle nad oes angen hawliau peilonau na pholion pren)

| Dargludydd uwchben heb gynhaliaeth | Cyfradd |
|---|---|
| 0 - 50m | £500 |
| 50 - 100m | £750 |
| 100m + | £1,000 |

### CEBL O DAN Y DDAEAR

| Ceblau o dan y ddaear | |
|---|---|
| 80% o werth y tir y cytunwyd arno dros led yr hawddfraint (isafswm gwerth y tir £7,500/hectar) | Isafswm £500 |

### BYDDWN YN TALU DRWY RANDALIADAU

| Opsiwn ar gyfer Hawddfraint/Gweithred Grant | |
|---|---|
| Ar ôl cwblhau'r opsiwn yn gyfreithiol | 25% |
| Ar ôl cyflwyno hysbysiad mynediad | 75% |

| Bonws Llofnodi'n Brydlon | |
|---|---|
| Cytuno ar Benawdau'r Telerau a'u llofnodi cyn pen 28 diwrnod o'u cyhoeddi am y tro cyntaf a chwblhau'r opsiwn yn gyfreithiol cyn pen 3 mis o gyhoeddi. Talu ar ôl cwblhau'r opsiwn yn gyfreithiol. | £2,500 |

### MYNEDIAD AT DIR TRYDYDD PARTI

Mewn rhai amgylchiadau, efallai byddwn ni ddim ond angen hawl tramwy (gyda cherbydau ac offer neu hebddynt) i gyrraedd seilwaith ar dir trydydd parti.

| Mynediad ar gyfer Gwaith Adeiladu a Chynnal a Chadw yn y Dyfodol | |
|---|---|
| Fesul peilon (ar dir cyfagos) mae angen mynediad ato | £1,000 |



## 2. **Effaith niweidiol**

Rydym yn cydnabod y gallai tirfeddianwyr boeni am ein cynigion ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda nhw i sicrhau eu bod yn deall ein cynigion ac i leihau'r effeithiau.

Yn ogystal â'r taliadau eraill a nodir, byddwn yn ystyried hawliadau am 'effaith niweidiol' ac unrhyw Benawdau Hawliadau priodol eraill ar sail unigol yn unol â'r ddeddfwriaeth iawndal gyfredol.

## 3. **Caffael tir**

Pan fydd angen caffael tir yn barhaol neu dros dro (ee is-orsaf, compownd selio pennau, compowndiau adeiladu), cytunir ar daliadau fesul achos.

## 4. **Difrod ac aflonyddwch**

Bydd unrhyw hawliadau'n cael eu talu ar sail colled a brofwyd yn ystod/ar ôl y gwaith adeiladu drwy gytundeb. Mae hyn yn cynnwys colli cnydau.

## 5. **Ffioedd proffesiynol**

### FFIOEDD ASIANTAU

**Telir drwy'r tirfeddiannwr/meddiannwr.**
Byddwn yn talu ffioedd asiantau yn briodol ac yn rhesymol am negodi Opsiwn ar gyfer Hawddfraint ac am iawndal ychwanegol (difrod neu effaith niweidiol); bydd y rhain yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

| Lefel yr Iawndal Sefydlog | Cyfradd |
|---|---|
| £1 - £500 | £650 |
| £500 - £1,000 | £875 |
| £1,000 - £2,500 | £970 |
| £2,500 - £5,000 | £1,100 |
| Gweddill | 2.5% |

Mewn rhai achosion, gallwn ddewis ad-dalu ffioedd asiantau ar sail quantum meruit (codir tâl rhesymol am amser). Os bydd asiant yn ceisio codi ffioedd fel hyn, rhaid gwneud hynny gyda'n cytundeb pendant ymlaen llaw. Rhaid darparu taflenni amser cywir a manwl gydag unrhyw gyfradd sy'n gymesur â chymhlethdod y gwaith sy'n cael ei wneud.

### FFIOEDD CYFREITHIOL

Byddwn yn ad-dalu eich ffioedd cyfreithiol rhesymol a geir yn briodol mewn cysylltiad â chwblhau'r Opsiwn ar gyfer Hawddfraint. Cytunir ar lefel yr ymgymeriad rhwng y cyfreithwyr.